nofitstate
circus

Blwyddyn
2023

ionawr

Rhaglen y Gaeaf

Cynhaliwyd llawer o weithgareddau syrcas a chrefftau am ddim yn Four Elms gyda'n cymuned leol.

Croeso Cynnes yn y Gaeaf

Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, fe wnaethom ni gynnig Croeso Cynnes creadigol yn Four Elms o fis Ionawr ymlaen ar gyfer teuluoedd, gofalwyr, plant ac oedolion o'r ardal leol. Mae brwdfrydedd a sylwadau pobl yn cadarnhau ein bod wedi llwyddo i greu lle diogel, cynnes a chroesawgar i bawb.

Dosbarthiadau Galw Heibio Newydd i Oedolion

Dechreusom gynnal dosbarthiadau galw heibio wythnosol i oedolion gyda sesiynau o'r Clwb Jyglo a Mish Mash Syrcas. Roedd y rhain am ddim neu'n sesiynau 'talwch fel y mynnwch'.

chwefror

Park Light, 25 Chwefror

Digwyddiad awyr-agored ym Mharc y Bragdy oedd Park Light. Roedd cyfle i weld arddangosfa o gerfluniau tân ac i werthfawrogi sgiliau cyfranogwyr, cyn dathliad trawiadol o dân a goleuni. Daeth 300 o bobl leol i'r digwyddiad.

Llwybr Lluniau Gŵyl Stryd Clifton

Buom yn arddangos lluniau mawr o Ŵyl Stryd Clifton ar hysbysfyrddau cyhoeddus ar gyffordd Stryd Clifton/Tin Street, mewn busnesau lleol, yn ffenestri siopau, ac yn Hyb STAR, Tremorfa. Roedd y llwybr lluniau'n gyfle i gofio a dathlu cymuned amrywiol yr ardal.



Circus Purposeless yn arbrofi ag Offer Syrcas Newydd

Defnyddiodd Circus Purposeless ein lle ni yn Four Elms i arbrofi ag offer syrcas newydd 'olwyn angau' a ddefnyddiwyd ganddynt mewn sioe ar gyfer Fool's Delight Circus yn nes ymlaen yn y flwyddyn.



Music Theatre Wales yn ymarfer The Jollof House Party Opera yn Four Elms

Bu Music Theatre Wales yn ymarfer ac yn perfformio gwaith oedd ar-y-gweill, sef eu cynhyrchiad newydd The Jollof House Party Opera yn Four Elms. Roedd y gwib-brofiad byw yn rhoi blas ar Nigeria ac yn cynnwys stori operatig chwarter awr dan ddylanwad hip-hop.

mawrth

Colli Alf

Roedd yn sioc i glywed y newyddion trist bod Alf, ffrind i'r cwmni ers blynyddoedd a pherfformiwr mewn llawer o'n sioeau cynharaf, wedi tynnu ei hetiau am y tro olaf. Mae arnom hiraeth mawr ar ei ôl, ond mae ei enaid a'r atgofion amdano yn fyw iawn.

Y Pentref Syrcas

350+ Yn Cymryd Rhan

7 Preswyliad

3 Cenedl

Rhaglen y Pentref Syrcas

Roedd tri phrif gam i raglen y Pentref Syrcas:

1. **Ieuenctid a Chymuned yng Nghymru | 10 - 12 Mawrth**
2. **Dysgu a Hyfforddi | 13 - 15 Mawrth**
3. **Herio'ch Ymarfer Creadigol a'ch Datblygiad Proffesiynol 17 Mawrth - 2 Ebrill**

Doedd dim tâl am ddod i'r Pentref Syrcas a thalwyd am lefydd i 249 o bobl gymryd rhan.

Cam 1: Ieuenctid a Chymuned yng Nghymru

Yn ystod y cam hwn, croesawyd 7 grŵp syrcas ieuenctid o bob rhan o Gymru. Roedd yn gyfle i bobl ifanc ddod ynghyd i ymarfer, rhwydweithio ac ehangu eu sgiliau. Roedd 48 o bobl ifanc o Syrcasau Ieuenctid, ac 16 o Arweinyddion Ieuenctid yn cymryd rhan. Yn ogystal, croesawyd athrawon, cyfranogwyr cymunedol ac artistiaid heb fod yn broffesiynol a oedd yn dymuno datblygu sgiliau technegol, addysgu a pherfformio.

Cam 2: Datblygiad Proffesiynol

Roedd pobl a wahoddwyd i aros am 3-6 diwrnod i ganolbwyntio ar faes datblygu o'u dewis nhw yn cymryd rhan yn y gweithdai datblygiad proffesiynol. Roedd yn gyfle i artistiaid syrcas proffesiynol ddysgu ac ymarfer gyda'i gilydd.

Preswyliadau'r Pentref Syrcas

Aethom ati i gefnogi 7 preswyliad creadigol fel rhan o'r Pentref Syrcas, gan ddarparu cyllid ar eu cyfer a lle i'r artistiaid weithio ar eu sioeau. Gwelwyd rhai a fu ar y preswyliadau hyn yn perfformio yng NGWYL y Pentref Syrcas hefyd.

Bu perfformwyr Circus Zambia yn rhan o Breswyliad y Pentref Syrcas 2023 ac yn perfformio yn noson gabare y Pentref Syrcas.

Clare Crook - un a fu ar breswyliad ym Mhentref Syrcas 2023 ebrill

Ehangu’r Croeso Cynnes i fod yn Lle Cymunedol Creadigol

Mewn ymateb i alw gan y gymuned, cafodd ein Croeso Cynnes ei ymestyn tan fis Gorffennaf i gynnig a chefnogi rhagor o gyfleoedd creadigol ar gyfer pobl yr ardal.

CELSA™ GROUP

Celsa Steel UK: Dur ar gyfer y Big Top

Fel rhan o’n perthynas newydd â Celsa Steel UK, rhoddwyd dur i greu seddau a phaledau newydd ar gyfer ein pabell Big Top, a chafwyd adloniant syrcas i ddathlu pen blwydd Celsa yn 20 ym Mharc yr Arfau yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Cyllid NPO gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn Parhau i 2023-26

Cynigiwyd cyllid o’r newydd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr fel rhan o’u Portffolio Cenedlaethol o Sefydliadau a Ariennir gan Refeniw (NPO) 2023-2026, gan ein galluogi i wneud gwaith sydd o fudd i gynulleidfaoedd, artistiaid a’r sector syrcas yn Lloegr ac yn rhyngwladol.

Effaith Ehangach ein Gwaith - Astudiaeth WISERD

Cafodd ein rhaglen gymunedol newydd a’i heffaith eu cynnwys fel patrwm o waith datblygu cymunedol mewn astudiaeth ymchwil gan Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD), sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol, rhyngddisgyblaethol, cenedlaethol: cydfenter rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe.

ccha

Dyfnhau ein partneriaeth â Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd

Mae ein partneriaeth â Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (CCHA) yn parhau, a ninnau’n cyd-greu gweithgareddau syrcas gyda thenantiaid y Gymdeithas yn Adamsdown, Sblot a Thremorfa.

Diwrnod y Sector - Y cynulliad mwyaf o artistiaid, cwmnïau a hyrwyddwyr syrcas yn y Deyrnas Unedig, a chyfle i ni hybu ein celfyddyd a'i hyrwyddo gartref a thramor.

THE CIRCUS VILLAGE FESTIVAL

GŴYL y Pentref Syrcas

GŴYL syrcas 4-diwrnod a gyflwynwyd gan NoFit State Circus a'u cyfeillion ym Mharc y Rec, Abertawe rhwng 13 ac 16 Ebrill oedd GŴYL y Pentref Syrcas.

Diwrnod Hwyl i'r Teulu - llond trol o weithgareddau syrcas hwyliog i blant, perfformiadau crwydrol, a gwesteion arbennig!

The Wing Scuffle Spectacular
gan The Revel Puck Circus

Noson Cabaret y Pentref Syrcas

Bitchcraft
gan Kitsch & Sync Collective

The Big Erection
gan Circus Purposeless

SABOTAGE yn Abertawe | 7 - 16 Ebrill

Yn Abertawe y cafwyd perfformiadau cyntaf taith SABOTAGE 2023. Agorwyd SABOTAGE cyn GŴYL y Pentref Syrcas a pharhau fel rhan o'r ŵyl.

Smile
gan Leyton John

Turk(ish)
gan Poppy Plowman

Cefnogwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council England, Sefydliad Garfield Weston, Creative Scotland, Llywodraeth Cymru Rhaid sôn yn arbennig am Tiny Rebel am noddi NoFit State â'u cwrw awescrafted, er budd cynulleidfaoedd yng Nghymru. Diolch yn fawr!

mai

Partneriaeth â Tros Gynnal Plant Cymru

Mewn partneriaeth â Tros Gynnal Plant Cymru, sy'n cefnogi ceiswyr lloches ifanc, daethom ag 20 o bobl ifanc i'r ŵyl i weld ein sioe SABOTAGE yn y Big Top yn Abertawe. Dyma oedd profiad cyntaf y rhan fwyaf ohonyn nhw o wylio syrcas byw yn y DU. Roedd rhai ohonynt wedi ein helpu i adeiladu cerflun tân ar gyfer digwyddiad Park Light ym mis Chwefror.



Cyfarfod cyntaf y Play Action Group (PAG)

Seilir PAG ar fodel datblygu cymunedol o ddod â sefydliadau cymunedol at ei gilydd i gynllunio a chyflwyno rhaglenni creadigol. Daeth Boomerang, Hyb STAR, Gerddi'r Rheilffordd, Seren yn y Gymuned a NoFit State i gyfarfod cyntaf PAG.

Cyfnewid Hyfforddwyr Syrcas

Bu ein hathro dan hyfforddiant mewn Celfyddydau Syrcas Cynhwysol ar leoliad wythnos o hyd gyda Pete Duncan sy'n hyfforddwr syrcas yng nghanolbarth Lloegr. Yn gyfnewid am hyn, croesawodd NoFit State athro dan hyfforddiant o Brighton am wythnos ym mis Mehefin. Nod y lleoliadau oedd ehangu profiadau a rhoi cefnogaeth i ddatblygu talent.

SABOTAGE ym Mryste
13 Mai - 2 Mehefin

Aeth NoFit State Circus yn ôl i Fryste am y tro cyntaf mewn deng mlynedd â'n sioe newydd SABOTAGE. Ym Mryste y cafwyd ein perfformiadau olaf yn y DU yn 2023, cyn pacio'n bagiau a theithio i dir mawr Ewrop.

Ennill Gwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru

Cawsom ddwy wobr yng Ngwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru 2023, un yn y dosbarth 'Celfyddydau, Busnes a'r Gymuned' a Gwobr Gelfyddydau gyffredinol i gydnabod ein gwaith cymunedol trawsnewidiol a'n partneriaeth lwyddiannus gyda Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (CCHA).

THE METAMODERN CIRCUS
26th May 2023

Croesawu'r 'Metamodern Circus Symposium' yng nghwmni Kate Kavanagh

Ysbrydolwyd yr ŵyl fechan hon gan y syniad eithaf anghyfarwydd o syrcas metamodern. Daeth ymarferwyr syrcas a rhai sy'n astudio ffenomena metamodern ynghyd i'r ŵyl yn Four Elms ar 26 Mai.

Gwaith Ymchwil a Datblygu Bamboo Circus yn 101 Outdoor Arts 30 Mai - 3 Mehefin

Gwaith sydd ar y gweill yw Bamboo Circus ac mae'n datblygu cynhyrchiad syrcas awyr-agored newydd ysblennydd, trawiadol, sgilgar gan ddefnyddio dim ond cyrff pobl a bambw wedi'i dyfu yn y DU.

Cafodd y prosiect ei greu ar y cyd rhwng Imagineer, Orit Azaz a NoFit State Circus er mwyn archwilio pa strwythurau, straeon a pherfformiadau syrcas y gellir eu creu â bambŵŵedi'i dyfu yn y DU. Mae'n rhan o ymholiad creadigol Imagine Bamboo is Everywhere 2023.

mehefin


SYRCAS TŶ ADAR /
BIRDHOUSE CIRCUS
Cwmni syrcas a pherfformiad, yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a pherfformio ar bob lefel
Circus and performance company, offering training and performance opportunities for all levels

Syrcas Tŷ Adar yn adeilad Four Elms i Dreialu Dosbarthiadau Newydd

Cwmni syrcas a pherfformio newydd lleol a sefydlwyd gan griw o athrawon NoFit State yw Syrcas Tŷ Adar. Treialwyd rhaglen newydd o ddosbarthiadau ar gyfer dechreuwyr, disgyblion profiadol ac ymarferwyr yn Four Elms, gan gynnig dosbarthiadau amrywiol mewn sgiliau syrcas, perfformio a symud.

Gweithgareddau Hanner Tymor gan y Play Action Group (PAG)

Mewn cydweithrediad â nifer o bartneriaid ledled Dwyrain Caerdydd, aethom ati i drefnu a chyflwyno wythnos o weithgareddau syrcas cymunedol ac eraill.

SABOTAGE CIRCUS BAND

Mynd i Grwydro i Dir Mawr Ewrop

Ar ôl sioeau llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr, aeth cwmni teithiol NoFit State ar daith i dir mawr Ewrop am y tro cyntaf ar ôl Brexit gan berfformio yn Lyon (Ffrainc), Antwerp (Gwlad Belg) a Phrag (y Weriniaeth Tsiec).

Dathlu Wythnos Ffoaduriaid

Buom yn cydweithio â phartneriaid cymunedol lleol, yn cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, i ddathlu Wythnos Ffoaduriaid trwy gynnal digwyddiadau yn yr ardal rhwng 19 a 25 Mehefin.

nofitstate

SABOTAGE yn Lyon, Ffrainc
22 Mehefin - 8 Gorffennaf

Ar ôl cyrraedd tir mawr Ewrop, y lle cyntaf i ni berfformio oedd y Festival Les Nuits de Fourvière, gŵyl amlddisgyblaethol ar gyfer y celfyddydai perfformio. Roedd y Big Top yn llawn dop ar gyfer perfformiadau yn Lyon.

gorffennaf

Derbyniad gan y British Council yn Lyon i Ddathlu Blwyddyn Cymru yn Ffrainc, 5 Gorffennaf

I ddathlu Blwyddyn Cymru yn Ffrainc yn 2023, croesawyd cynrychiolwyr o Lywodraethau Cymru a Ffrainc, sefydliadau celfyddydol, ffrindiau a phartneriaid i'n derbyniad gyda'r British Council.

Free!
Summer Fun

Rhaglen Gwyliau'r Haf - Estyniad o'r Play Action Group

Buom yn cydweithio â saith partner lleol i gyflwyno rhaglen o weithgareddau Hwyl Haf, am ddim, mewn 12 lleoliad ledled Sblot, Adamsdown a Thremorfa. O sesiynau chwarae, gweithdy canu a dawnsio, i syrcas, rhyddredeg, celf wyllt a straeon byd natur.

Gwaith Ymchwil a Datblygu Haf Bamboo Circus

Gŵyl Gymunedau

Cawsom wahoddiad i arddangos ein gwaith yn yr Ŵyl Gymunedau, digwyddiad cydlyniant cymunedol yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Cafodd ei threfnu gan Cymdeithas Cyflawniadau Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru (EMWWAA) mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru fel rhan o'u hymrwymiad i Gymru Wrth-Hiliol.

Roedd gwaith ymchwil a datblygu Bamboo Circus yn Citrus Arts, Pontypridd, 17 - 28 Gorffennaf. Yna, cafwyd perfformiad gwaith-ar-y-gweill yn Bedworth ddydd Sadwrn 29 Gorffennaf fel rhan o Imagine Bamboo Is Everywhere.

SABOTAGE yn Antwerp, Gwlad Belg 20 Gorffennaf - 5 Awst

Antwerp oedd ein hail stop ar dir mawr Ewrop. Dechreuodd perfformiadau SABOTAGE yn Antwerp ym mis Gorffennaf a buom yn perfformio yn Zomer van Antwerpen, gŵyl eang, lefel-uchel sy'n cynnwys perfformio, cerddoriaeth, ffilm, syrcas a chelfyddydau stryd ar raddfa fawr.

Partneriaeth Milltir Sgwâr / Square Mile

Dyma ddechrau prosiect 18 mis gan bartneriaeth gymunedol. Ymhlith partneriaid Milltir Sgwâr mae Cynghorwyr Adamsdown, gweithwyr creadigol llawrydd, Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (CCHA), Ysgol Gynradd Adamsdown, Green Squirrel, Llamau, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs), Oasis, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a NoFit State Circus.

Caiff y prosiect ei ariannu gan grant loteri Cysylltu a Ffynnu, Cyngor Celfyddydau Cymru.

awst

GREGGS
GREGGS

Effaith ehangach ein gwaith – rôl newydd fel corff angori cymunedol

- Gofynnodd Cymru Ddiogelach i ni dreialu gweithgareddau gyda merched ifanc sydd wedi goroesi cam-drin domestig, a rhai sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol, yn hydref 2023.
- Gwahoddodd Canolfan Gymunedol Boomerang, Tremorfa ni i gynnal sesiynau ar gyfer oedolion ifanc awtistig 16-25 oed yn eu canolfan ym mis Medi.
- Gwahoddodd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd ni i gydweithio â Chlwb Bocsio Tiger Bay a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol i ddatblygu gornest focsio/syrcas.
- Gwahoddodd CCHA ni i gyflwyno gweithdy cymunedol yn eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi.

SABOTAGE ym Mhrag, y Weriniaeth Tsiec, 17 Awst - 3 Medi

Prag oedd y lle olaf i ni berfformio ynddo ar dir mawr Ewrop. Cynhaliwyd perfformiadau SABOTAGE o 17 Awst tan 3 Medi yng Ngŵyl Letní Letná. Bu Letní Letná yn arwain y ffordd i syrcas gyfoes yn y Weriniaeth Tsiec ac roedd cymryd rhan yn yr ŵyl eleni eto yn brofiad cyffrous.

Prosiect Ymchwil a Datblygu Bamboo Circus yn Lerpwl

Roedd prosiect Bamboo Circus yn dal i ddatblygu yn MAKE North Docks, Lerpwl. Dangoswyd gwaith-ar-y-gweill fel rhan o ddigwyddiad Imagine Bamboo is Everywhere yn Newton le Willows.

medi

Gwledd Parc Feast, 2 Medi

Digwyddiad awyr-agored yng Nghaeau Anderson, Caerdydd, i ddathlu ein cymuned, ei chelfyddydau a'i diwylliant, gan ac ar gyfer pobl Sblot, Adamsdown a Thremorfa oedd Gwledd Parc Feast. Sbardunwyd Gwledd Parc Feast gan y gymuned a llwyddodd i dynnu pobl at ei gilydd i fwynhau diwrnod o hwyl ac adloniant am ddim. Roedd yno bob math o fwyd, cerddoriaeth, crefftau, gweithgareddau a pherfformiadau gan artistiaid a grwpiau cymunedol lleol.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru'n cyhoeddi Portffolio Celfyddydol Cymru ar ei newydd wedd

Cyhoeddwyd Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru ar 27 Medi. Dyfarnwyd cyllid o'r newydd i NoFit State fel rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru 2024 - 2027.

hydref

Gweithgareddau Hanner Tymor yr Hydref

Buom yn cydweithio â mudiadau lleol i drefnu cyfres o weithgareddau di-dâl i'r gymuned leol dros wyliau hanner tymor yr Hydref. Roedd y gweithgareddau amrywiol yn cynnwys syrcas, parkour, a chelf a chrefft i gadw'r gymuned leol yn brysur ac yn ddiddig dros y gwyliau hanner tymor!

from
young people below
the age of 18 years

Alison yn mynd i Zambia fel rhan o Brosiect Artist as Activist

O ganlyniad i'r bartneriaeth sy'n datblygu â Circus Zambia, bu Alison Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol NoFit State Circus, yn Lusaka, Zambia i gychwyn prosiect newydd, ‘Artists as Activists’, diolch i grant oddi wrth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Bŵtcamp Hedfan Technegol ar gyfer Theatr y Sherman yn Four Elms

Cyflwynodd ein rigwyr a’n technegwyr bŵtcamp ar gyfer cast sioe newydd Theatr y Sherman, ‘Peter Pan’. Roedd y bŵtcamp yn canolbwyntio ar wahanol dechnegau hedfan, yn cynnwys gwrth-bwyso pobl ac ymladd yn yr awyr.

tachwedd

Wythnos greu Bambŵ
13 - 18 Tachwedd

Cynhaliwyd ein hwythnos greu gyntaf ar gyfer Bamboo Circus, y sioe newydd awyr-agored sydd ar y gweill, yn Four Elms. O dan arweiniad y Cyfarwyddwr, Mish Weaver a chyd-Gyfarwyddwyr Artistig Bamboo Circus, Tom Rack ac Orit Azaz, aed ati i ddatblygu’r hyn a ddysgwyd mor belled a dechrau adeiladu pethau mwy o faint a mwy hyderus.

rhagfyr

Y CCB a Cabaret y Nadolig

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) bob blwyddyn, byddwn yn adrodd wrth ein haelodau beth rydym wedi bod yn ei wneud a beth yw ein cynlluniau. Eleni, dilynwyd y Cyfarfod Blynyddol gan barti Nadolig NoFit State. Unwaith eto cafwyd cabaret syrcas a pherfformiadau gan ein cymuned anhygoel o aelodau dosbarthiadau ac athrawon.



Sioe Peter Pan yn agor gyda Chymorth Technegol gan NoFit State

Daeth Peter Pan i Theatr y Sherman gyda golygfeydd hedfan a gynlluniwyd gan NoFit State Circus. Cydgynhyrchiad rhwng Theatr y Sherman a Theatr Iolo oedd y sioe. Kevin McIntosh, hyfforddwr a pherfformiwr gyda NoFit State Circus, oedd yn chwarae rhan Michael.

WNO
WELSH NATIONAL OPERA
CENEDLAETHOL CYMRU

Sioe gan Opera Cenedlaethol Cymru yn cynnwys Syrcas dan gyfarwyddyd Firenza Guidi

Mae’r WNO yn cydweithio â NoFit State a Firenza Guidi i gyflwyno Death in Venice yn 2024. Olivia Fuchs fydd yn cyfarwyddo a bydd Mark Le Brocq a Roderick Williams yn perfformio. Firenza Guidi o NoFit State fydd yn cyfarwyddo golygfeydd y syrcas.

Edrych yn ôl ar effaith ein gwaith eleni!

Rhaglen Gymunedol

dros 13,500

Nifer y bobl y llwyddodd rhaglen gymunedol NoFit State i ymgysylltu â nhw yn yr ardal leol eleni!

Nifer y gweithgareddau a drefnwyd gennym eleni!

dros 960

SABOTAGE

80	146,429	5000
Cyfanswm y perfformiadau	Cyfanswm y bobl ddaeth i’r perfformiadau	Cyfanswm y talebau a rannwyd am ddim neu am ddisgownt.

y dyfodol

NoFit State yn Sbarduno Newid

Mae'r ffordd y cawsom ein trawsnewid dros y flwyddyn ddiwethaf a'r effaith a gawsom yn y cyfnod hwnnw wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i fynd ati mewn ffordd rymus i sbarduno newid.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

nofitstate.org Rhif Elusen: 1102850 Rhif Cwmni: 3180348 **02920 221 330**